

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

---

# Materion Allanol: Gwaith Craffu yn y Chweched Senedd

Mawrth 2021



[www.senedd.cymru](http://www.senedd.cymru)

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[www.senedd.cymru/SeneddMADY](http://www.senedd.cymru/SeneddMADY)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddMADY@senedd.cymru](mailto:SeneddMADY@senedd.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddMADY](https://twitter.com/SeneddMADY)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# **Materion Allanol: Gwaith Craffu yn y Chweched Senedd**

Mawrth 2021



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.senedd.cymru/SeneddMADY](http://www.senedd.cymru/SeneddMADY)

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**David Rees AS**  
Llafur Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Alun Davies AS**  
Llafur Cymru



**Huw Irranca-Davies AS**  
Llafur Cymru



**Dai Lloyd AS**  
Plaid Cymru



**David J Rowlands AS**  
Grŵp y Gyng rhair Annibynnol dros  
Ddiwygio

---

## Rhagair y Cadeirydd

Wrth inni ddod â'r Bumed Senedd i ben, mae lle Cymru yn y byd a datganoli yng Nghymru wedi newid yn sylfaenol ers i ni ddechrau ein gwaith yn ystod haf 2016.

Nid yw Cymru, fel rhan o'r DU, bellach yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, a chytunwyd ar y telerau sylfaenol ar gyfer perthynas newydd.

Mae'r rhwyg sy'n amlwg yn parhau yn y berthynas rhwng y DU a'r UE yn destun pryder. Mae'n creu peth ansicrwydd ar adeg pan mae angen hyder ar fusnesau a phobl Cymru yn nhelerau'r berthynas newydd.

Mae'r berthynas rhwng y Llywodraethau a'r deddfwrfeydd datganoledig a Llywodraeth a Senedd y DU ar drai o ganlyniad i benderfyniadau ar ran Llywodraeth a Senedd y DU i ddeddfu yn groes i ewyllys y deddfwrfeydd datganoledig ar benderfyniadau allweddol ynghylch dyfodol y DU y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud penderfyniadau polisi i osod cyfyngiadau newydd ar ddatganoli. Bydd cyllid a oedd yn arfer dod o'r Undeb Ewropeaidd ac yn cael ei reoli gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd bellach yn dod o Lywodraeth y DU ac yn cael ei reoli gan Lywodraeth y DU, hyd yn oed mewn meysydd polisi datganoledig. Nid yw'n eglur eto a fydd swm y cyllid i'w ddsbarthu i Gymru yn cyfateb i'r hyn a oedd yn arfer cael ei ddarparu gan yr UE.

Mae gwaith craffu ar faterion Ewropeaidd ac ymgysylltu â'r rhain wedi bod yn rhan ganolog o waith y Senedd ers ei sefydlu, oherwydd nifer y meysydd cymhwysedd datganoledig a oedd yn dod o fewn fframweithiau polisi Ewropeaidd.

Roedd gan y Senedd swyddogaeth graffu ffurfiol, mewn perthynas ag egwyddor sybsidiaredd yr UE, y darperir ar ei chyfer yn Rheolau Sefydlog y Senedd.

Er nad oes bellach angen trafod materion Ewropeaidd yn y ffyrdd hyn, mae'r broses o ymadael â'r UE a sefydlu perthynas newydd wedi creu ystod sylweddol o heriau newydd o ran gwaith craffu.

Yn ystod y Bumed Senedd, mae ystod o dasgau craffu hefyd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i'r broses Brexit. Mae'r enghreifftiau amlwg yn cynnwys fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan, cytundebau rhyngwladol y DU, a marchnad fewnol y DU.

Nod yr adroddiad hwn yw cofnodi'r swyddogaethau craffu y mae'r pwyllgor hwn wedi cymryd cyfrifoldeb drostynt yn ystod y Bumed Senedd, a'n barn bod angen ymgorffori'r swyddogaethau hyn wrth ddylunio dulliau craffu a sefydlu pwyllgorau ar ddechrau'r Chweched Senedd.

O ystyried maint a phwysigrwydd y tasgau craffu rydym yn eu nodi yn yr adroddiad hwn, efallai y byddem wedi cael ein temptio i argymhell bod y Chweched Senedd yn sefydlu Pwyllgor Materion Allanol.

Nid ydym yn mynd mor bell â gwneud unrhyw argymhelliad ynghylch sut y dylai'r Chweched Senedd gyflawni'r swyddogaethau craffu hyn, gan gydnabod yr ystod gymhleth o ystyriaethau y mae angen eu cydbwysu wrth sefydlu pwyllgorau a dulliau craffu.

Gofynnwn i'r tasgau craffu hyn gael eu hystyried o ddifrif gan y Pwyllgor Busnes newydd pan fydd yn troi ei sylw at sefydlu pwyllgorau ar gyfer y Chweched Senedd.

## Cyflwyniad

- 1.** Nid yw'r adroddiad hwn yn gofnod o'n gwaith, ond yn hytrach yn rhestr gymharol gryno o'r tasgau craffu y credwn sydd angen eu cario ymlaen i'r Chweched Senedd ar ryw ffurf neu'i gilydd.
- 2.** Pe bai gennym fwy o amser o'n blaenau, byddem yn parhau i ddatblygu a chyflawni'r tasgau sy'n cael eu nodi yma. Er ein bod yn fodlon ein bod wedi gwneud cymaint ag y gallwn yn ystod y Senedd hon, mae llawer mwy i'w wneud o hyd.
- 3.** Er mwyn helpu i'n paratoi ar gyfer yr adroddiad hwn, fe wnaethom ni dynnu ar ein profiad o'r pum mlynedd diwethaf a gwaith y nifer fawr o gyfranwyr at ein gwaith yn ystod y cyfnod hwnnw.
- 4.** Yn ogystal, fe wnaethom ni gynnal dwy sesiwn bwrdd crwn gydag arbenigwyr yn cyfrannu atynt. Teitl bras un sesiwn oedd "Cymru yn y Byd" a'r llall oedd "Cymru yn y DU". Dyluniwyd y sesiynau hyn i'n helpu i bwysu a mesur beth yw safle Cymru yn y byd ac yn y DU erbyn hyn ar ddiwedd y Bumed Senedd.<sup>1</sup>
- 5.** Mae cyfraniad y rheini a gymerodd ran wedi bod yn hynod werthfawr o ran ein cynorthwyo i weld beth yw'r tasgau craffu y credwn sydd angen parhau â nhw yn y Senedd nesaf. Fodd bynnag, ni allwn ddod i gasgliadau eto ynghylch safle Cymru yn y byd ehangach na beth fydd ei lle yn y Deyrnas Unedig yng nghydestun datganoli.
- 6.** Mae'r ansicrwydd hwn yn dangos ymhellach bod angen parhau â'n gwaith ar ryw ffurf yn y Chweched Senedd, fel Senedd lle bydd yn bosibl dechrau dod i'r casgliadau hyn.

---

<sup>1</sup> Gweler trawsgrifiadau ein cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2021 ac 1 Chwefror 2021.

## Tasg graffu ar gyfer y Chweched Senedd

7. Rydym yn gwneud un argymhelliad eang yn yr adroddiad hwn:

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymhell bod Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd yn ymgorffori'r tasgau craffu a ganlyn wrth baratoi cynigion ar gyfer sefydlu pwyllgorau'r Chweched Senedd:

Tasg		Disgrifiad byr (gweler corff yr adroddiad am ddisgrifiad llawnach)
<b>A</b>	<b>Cytundebau Rhyngwladol</b>	
<b>A1</b>	Y berthynas â'r UE	<p>Mae angen gwneud <b>gwaith craffu parhaus ar y goblygiadau i Gymru sy'n deillio o weithredu a datblygu'r Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad yn y dyfodol.</b></p> <p>Mae hyn yn ymdrin â materion mor amrywiol â hawliau dinasyddion, ymrwymadau i degwch yn y farchnad o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad, a'r effaith ar sectorau yn economi Cymru.</p> <p>Bydd <b>cynnal a datblygu'r berthynas â sefydliadau'r UE a deddfwrfeydd Ewropeaidd eraill</b> yn hanfodol i ymdrechion i ragweld materion posibl i Gymru a allai godi yn sgil gweithredu a/neu ddatblygu'r berthynas, ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, ac er mwyn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn y maes hwn.</p>
<b>A2</b>	Cytundebau a rhwymedigaethau rhyngwladol presennol y DU	<p>Mae angen gwneud <b>gwaith craffu parhaus ar y goblygiadau i Gymru yn sgil gweithredu a datblygu cytundebau rhyngwladol y DU yn y dyfodol a'r rhwymedigaethau sy'n deillio ohonynt.</b></p> <p>Gallai'r Senedd gynyddu gwerth cytundebau masnach i randdeiliad o Gymru drwy fynd ati i roi llais i fuddiannau Cymru mewn amgylchiadau lle mae datblygu cytundeb yn bosibl a lle nodwyd rhwystrau i fasnach.</p>



<b>Tasg</b>	<b>Disgrifiad byr (gweler corff yr adroddiad am ddisgrifiad llawnach)</b>	
<b>A3</b>	Cytundebau rhyngwladol newydd y DU	<p>Dylai'r dull o graffu ar gytundebau rhyngwladol y gwnaethom ni ei ddatblygu ystod y Bumed Senedd barhau yn y Chweched Senedd.</p> <p>Credwn y gall y Senedd chwarae rôl fwy arwyddocaol o ran datblygu cytundebau rhyngwladol newydd. Rydym wedi cynnig dull o wneud hyn y gallai pwyllgor fynd ar ei drywydd yn y Chweched Senedd.</p>
<b>B</b>	<b>Cysylltiadau a pholisi o fewn y DU</b>	
<b>B1</b>	Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020	<p>Mae angen parhau i ddatblygu dealltwriaeth o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU a sut mae'n effeithio ar ddatganoli, sut mae cysyniad marchnad fewnol y DU yn cael ei weithredu a'i reoleiddio, a sut i gynrychioli rhanddeiliaid Cymru y mae hyn yn effeithio arnynt.</p> <p>Mae yna ystod o ddyletswyddau adrodd a phwerau dirprwyedig a fydd yn gofyn am waith craffu parhaus.</p>
<b>B2</b>	Fframweithiau Cyffredin	<p>Prin fod y gwaith craffu wedi dechrau ar y fframweithiau ac maent yn cael eu diwygio'n sylweddol. Mae angen gwneud gwaith sylweddol i graffu ar y rhain ddiwedd 2021 a dechrau 2022. Bydd angen gwaith monitro parhaus drwy gydol y Senedd nesaf.</p>
<b>B3</b>	Cysylltiadau Rhynglywodraethol	<p>Dylid parhau yn y Chweched Senedd i graffu ar gysylltiadau rhynglywodraethol o fewn ein cylch gwaith cyfredol.</p>
<b>B4</b>	Cysylltiadau Rhyngseneddol	<p>Dylai fod ymgysylltiad parhaus a chynyddol â deddfwrfeydd eraill y DU ar lefel wleidyddol a swyddogol fel ei gilydd, gan adeiladu ar brofiad y Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit.</p>

<b>Tasg</b>		<b>Disgrifiad byr (gweler corff yr adroddiad am ddisgrifiad llawnach)</b>
<b>B5</b>	Disodli cyllid yr UE	Wrth i fanylion ddod i'r amlwg ynghylch sut bydd Llywodraeth y DU yn disodli cyllid yr UE, bydd gwaith craffu gan y Senedd yn hanfodol.
<b>C</b>	<b>Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd</b>	
<b>C1</b>	Strategaeth Ryngwladol	Bydd angen i'r gwaith o graffu ar strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru barhau yn y Chweched Senedd.
<b>C2</b>	Strategaeth Ryngwladol	Bydd gan y Senedd rôl bwysig i'w chwarae o ran sefydlu safle newydd Cymru yn y byd ac mae rôl hanfodol i bwyllgorau'r Senedd o ran gwaith craffu, cynrychiolaeth a chyfnewid gwybodaeth.

**8.** Mae gweddill yr adroddiad hwn yn rhoi rhywfaint o eglurhad pellach o bob un o'r tasgau hyn.

**9.** Mae llawer o'r tasgau craffu hyn yn rhai trawsbynciol o ran polisi ac yn rhyng-gysylltiedig mewn ffordd gymhleth.

**10.** Os yw Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd yn credu y dylai'r dasg graffu a nodir yn yr adroddiad hwn barhau, bydd angen iddo ystyried rhinweddau, neu fel arall, prif ffrydio swyddogaethau ar draws sawl pwyllgor yn erbyn rhoi'r rhain i un pwyllgor yn unig.

## 1. Cytundebau rhyngwladol

- 11.** Y cytundebau rhyngwladol yr ydym wedi'u hystyried yn fwyaf amlwg yw'r rhai rhwng y DU a'r UE, i hwyluso ymadawriad y DU â'r UE ac i sefydlu perthynas yn y dyfodol.
- 12.** Wrth fynd i'r afael â'r goblygiadau sy'n deillio o benderfyniad y DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, daeth yn amlwg bod angen i ni roi sylw manwl i'r cytundebau rhyngwladol a wnaed gan y DU gyda chenhedloedd a sefydliadau eraill. Roedd hyn yn cynnwys y cytundebau i 'drosglwyddo' cytundebau presennol yr UE i gyd-destun y DU, cytundebau masnach newydd, a chytundebau eraill nad ydynt yn rhai masnach.
- 13.** Mae gan gytundebau rhyngwladol y DU y potensial i effeithio'n sylweddol ar feysydd polisi datganoledig, deddfau sy'n cael eu pasio gan y Senedd, a'r setliad datganoli. Mae risg na fydd y goblygiadau hyn yn cael eu cydnabod na'u deall yn glir ar yr adeg y gwneir cytundeb, oni bai bod gan y Senedd broses graffu ar waith.
- 14.** Gall cytundebau rhyngwladol hefyd gynnig cyfleoedd ac, mewn rhai achosion, y gobaith o ddatblygu ymhellach. Mae gan y Senedd rôl o ran nodi buddiannau Cymru a, thrwy waith craffu a chynrychioli, sicrhau bod cytundebau'n cael eu gweithredu a'u datblygu mewn ffordd sy'n sicrhau'r buddiannau gorau posibl i Gymru.

### 1.1. Y berthynas â'r Undeb Ewropeaidd

- 15.** Er i ni gael cyfle go hir i graffu ar ddatblygiad y Cytundeb Ymadael, mae'r dull gweithredu a gymerodd Llywodraeth y DU i negodi Cytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a'r UE yn golygu ein bod ond wedi gallu dechrau asesu telerau perthynas y DU a'r UE yn y dyfodol ar ddechrau 2021.
- 16.** Mae llawer mwy i'w wneud o ran asesu'r goblygiadau i Gymru sy'n deillio o'r cytundeb hwn. Yn anad dim oherwydd er bod y strwythur ar gyfer y berthynas yn y dyfodol wedi'i nodi yn y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad, nid yw llawer o'r gwaith ynghylch sut y bydd y cytundeb yn gweithio'n ymarferol wedi'i wneud eto.
- 17.** Nid yw'r cytundeb yn ymwneud â masnach yn unig ond yn ymwneud â meysydd mawr eraill o bolisi datganoledig fel iechyd, gwasanaethau cyhoeddus, amaethyddiaeth a safonau amgylcheddol. Bydd y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynghylch sut y bydd y cytundeb yn gweithredu'n ymarferol ac yn cael ei adolygu, a sut y caiff anghydfodau eu datrys, yn cael effaith sylweddol ar fusnesau, dinasyddion a gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

- 18.** At hynny, mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad yn darparu y dylai'r trafodaethau barhau rhwng y partïon ar gydweithrediad meysydd sy'n bwysig i Gymru fel gwarchod enwau bwyd a chydabod cymwysterau proffesiynol.
- 19.** Bydd angen i bwyllgorau'r Senedd sicrhau bod ganddynt y capasiti i barhau i graffu ar y goblygiadau i Gymru sy'n deillio o weithredu a datblygu'r Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad yn y dyfodol.
- 20.** Mae'r cytundebau hyn yn ymdrin â materion mor amrywiol â hawliau dinasyddion, ymrwymadau tegwch yn y farchnad y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad, a'r effaith ar sectorau economi Cymru o ganlyniad i'r berthynas newydd (a datblygol).
- 21.** Bydd angen i'r Senedd barhau i fonitro hawliau dinasyddion yr UE yng Nghymru a'r cyfraniad hollbwysig y maent yn ei wneud ar draws meysydd polisi datganoledig. Yn ogystal â chraffu ar gamau gweithredu Llywodraeth Cymru, a deall dull gweithredu Llywodraeth y DU, bydd angen i'r Chweched Senedd barhau i feithrin cysylltiadau da â chymunedau niferus o ddinasyddion yr UE ledled Cymru.
- 22.** Mae telerau Protocol Gogledd Iwerddon, a Deddf Parhad yr Alban, yn golygu bod monitro datblygiadau yng nghyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol yng nghyd-destun craffu ar faterion o fewn y DU fel y Fframweithiau Cyffredin a deddfwriaeth gysylltiedig.

## 1.2. Y berthynas â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd

- 23.** Yn ddiweddar, fe wnaethom ni ysgrifennu at aelodau blaenllaw o ddau Dŷ'r Senedd i ofyn i Aelodau o'r Senedd gael eu cynrychioli ar ddirprwyaeth y DU i Gynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE a sefydlwyd gan y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad.<sup>2</sup>
- 24.** Mae'n annhebygol y bydd y cais hwn yn cael ei ddatrys cyn diwedd y Bumed Senedd. O ystyried ehangder y sylw y mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad yn ei roi i feysydd datganoledig, mae'n bwysig bod pwyllgorau ac Aelodau'r Chweched Senedd yn parhau i fynd ar drywydd y mater hwn.

---

<sup>2</sup> Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol at Gadeirydd Pwyllgor Cyswllt Tŷ'r Cyffredin a Chadeirydd Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, 21 Chwefror 2021

**25.** Credwn fod rhinwedd mewn locws Busnes y Senedd i gynnal a datblygu cysylltiadau Ewropeaidd, gydag aelodaeth o unrhyw gyrff rhyng-sefydliadol yn dod o bwyllgorau perthnasol y Senedd. Byddai hyn yn sicrhau bod buddiannau'r berthynas yn cael eu gwireddu mewn cyd-destun busnes, h.y. eu bod yn cyfrannu'n uniongyrchol at waith pwyllgorau perthnasol, a thrwy adroddiadau pwyllgorau a datganiadau Cadeirydd, at fusnes y Cyfarfod Llawn.

### 1.3. Cytundebau a rhwymedigaethau rhyngwladol presennol y DU

**26.** Mae angen gwneud gwaith craffu parhaus ar y goblygiadau i Gymru yn sgil gweithredu a diwygio cytundebau rhyngwladol y DU yn y dyfodol a'r rhwymedigaethau sy'n deillio ohonynt.

**27.** Mae hyn yn cynnwys mynd ati i roi llais i fuddiannau Cymru mewn amgylchiadau lle mae'n bosibl datblygu cytundeb. Er enghraifft, mewn amgylchiadau lle mae busnes neu sefydliad o Gymru yn nodi rhwystrau i fasnach neu lle mae anghydfodau'n codi sy'n effeithio ar fusnesau o Gymru.

### 1.4. Cytundebau rhyngwladol newydd y DU

**28.** Rydym wedi datblygu proses graffu ar gyfer asesu cytundebau rhyngwladol y DU o ran eu goblygiadau posibl i Gymru a'r setliad datganoli. Dangosir hyn yn y diagram ar dudalen 12.

**29.** Yn ein hadroddiad yn 2019, *Cytundebau rhyngwladol y DU ar ôl Brexit: Rôl i'r Cynulliad [Senedd]*, fe wnaethom ni gynnig rôl fwy datblygedig i'r Senedd wrth ymgysylltu'n uwch â chytundebau rhyngwladol a gwneud gwaith craffu arnynt.<sup>3</sup>


**30.** Mae pwyllgorau yn Senedd y DU wedi cydnabod hyn.<sup>4</sup> Mae angen gwaith pellach i ddatblygu'r dull gweithredu hwn ar ddechrau'r Chweched Senedd, yn enwedig gan fod disgwyl cytundebau sylweddol y DU yn ystod y Chweched Senedd, e.e. gydag UDA, Awstralia, Seland Newydd, a'r posibilrwydd o ymuno â'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel.

---

<sup>3</sup> Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, *Cytundebau rhyngwladol y DU ar ôl Brexit: Rôl i'r Cynulliad [Senedd]*, Rhagfyr 2019.

<sup>4</sup> Er enghraifft, adroddiad Is-bwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi ynghylch *Craffu ar gytuniadau: arferion gwaith*, Gorffennaf 2020.

## Y broses o graffu ar Gytundebau Rhyngwladol



## 2. Cysylltiadau a pholisi o fewn y DU

### 2.1. Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

**31.** Daw Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020 â chanlyniadau sylweddol i ddatganoli yng Nghymru. Mae wedi lleihau cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac wedi creu sefyllfa lle mae effaith ymarferol deddfau sy'n cael eu pasio gan y Senedd yn y dyfodol, mewn ystod o feysydd, yn ansicr.

**32.** Gweler ein hadroddiad *Bil Marchnad Fewnol y DU: Cydsyniad Deddfwriaethol* am esboniad llawnach o'n safbwynt ar y ddeddfwriaeth hon.<sup>5</sup>

**33.** Mae tasgau craffu sylweddol ar y gweill i'r Senedd. I ba raddau y bydd y ddeddfwriaeth hon yn effeithio ar allu deddfau'r Senedd i wneud gwahaniaeth ystyrllon i fywydau pobl Cymru? Sut mae'n cyd-fynd â therfynau eraill ar y setliad datganoli, fel y rhaglen fframweithiau cyffredin a chytundebau rhyngwladol?

**34.** Hefyd, mae yna ystod o ddyletswyddau adrodd a phwerau dirprwyedig a fydd yn gofyn am waith craffu parhaus. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ddatblygu perthynas â Swyddfa Marchnad Fewnol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

### 2.2. Fframweithiau Cyffredin

**35.** Prin fod y gwaith o archwilio fframweithiau cyffredin wedi dechrau ac maent wrthi'n cael eu diwygio'n sylweddol i ystyried Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad, a beth bynnag fydd canlyniad yr her gyfreithiol gan Lywodraeth Cymru.<sup>6</sup>

**36.** Bydd y Fframweithiau Cyffredin yn sail ar gyfer cyfran sylweddol o gysylltiadau rhynglywodraethol o fewn y DU. Mae angen craffu arnynt cyn i lywodraethau pedair cenedl y DU gytuno arnynt yn derfynol, yn ogystal â gwneud gwaith monitro a chraffu parhaus pan fyddant yn gwbl weithredol.

---

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, *Bil Marchnad Fewnol y DU: Cydsyniad Deddfwriaethol*, Rhagfyr 2020.

<sup>6</sup> Ar 18 Ionawr 2021, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol achos ffurfiol yn y Llys Gweinyddol yn gofyn am ganiatâd ar gyfer adolygiad barnwrol i geisio datganiadau ynghylch cwmpas darpariaethau Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020.

- 37.** Ar hyn o bryd, y targed yw cwblhau'r gwaith craffu ar yr holl fframweithiau erbyn diwedd 2021 a dod i gytundeb rhynglywodraethol llawn. Yn y cyfamser, mae fframweithiau cyffredin dros dro yn parhau i fod yn weithredol.
- 38.** Mae ein profiad o fonitro datblygiad y Fframweithiau Cyffredin yn awgrymu y gallai fod angen ymestyn y dyddiad cau hwn i 2022.
- 39.** Mae angen craffu ar fanylion y Fframweithiau Cyffredin unigol ac effaith y rhaglen Fframweithiau Cyffredin yn ei chyfanrwydd. Mae hyn yn cynnwys y ffordd y mae'n cyd-fynd â thasgau craffu trawsbynciol eraill, fel gwaith craffu parhaus ar Farchnad Fewnol y DU a chytundebau rhyngwladol.
- 40.** Mae'r gwaith hwn yn bwysig oherwydd, yn ogystal ag effaith ymarferol bosibl y Fframweithiau ar gymhwysedd y Senedd, maent yn effeithio'n uniongyrchol ar ddinasyddion a busnes yng Nghymru. Er enghraifft, y broses i fusnesau bwyd gofrestru cynhyrchion bwyd newydd sy'n gysylltiedig â maeth.
- 41.** Mae gwaith craffu cynnar ar y fframweithiau wedi dangos y gallant hefyd roi syniad o sut y mae cyfraith yr UE wedi'i dargadw a lle mae'r pŵer yn gorwedd yn y meysydd polisi hyn. Unwaith eto, mae angen gwneud llawer mwy o waith i ddeall goblygiadau hyn i Gymru a sut mae'r broses o ddargadw cyfraith yr UE wedi effeithio ar y setliad datganoli.

### 2.3. Cysylltiadau rhynglywodraethol ym meysydd cylch gwaith y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

- 42.** Mewn llythyr at y Prif Weinidog 17 Mawrth 2021, rydym wedi dod i'r casgliad bod cyflwr gwael y cysylltiadau rhynglywodraethol o fewn y DU (gyda'r sefyllfa hon yn gwaethygu) wedi atal Llywodraeth Cymru rhag cyflawni rôl ystyrlon yn y broses Brexit, a bod hyn wedi arwain at ddewisiadau polisi diangen o wrthdrawiadol ar ran Llywodraeth y DU.
- 43.** Rydym yn ymwybodol o'r adolygiad sy'n mynd rhagddo o gysylltiadau rhynglywodraethol, a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Mawrth 2018.<sup>7</sup> Mae'n amlwg bod angen newid sylweddol i adlewyrchu'r straen y mae Brexit a newidiadau cyfansoddiadol ehangach wedi'i roi ar y strwythurau presennol cyfredol.

---

<sup>7</sup> Cytunwyd ar yr adolygiad hwn yng Nghyfarfod Llawn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar 14 Mawrth 2018.



- 44.** Mae ein prif ffocws wedi bod ar Negodiadau Ewropeaidd y Cyd-bwyllgor Gweinidogion a Fforwm y Gweinidogion ar Fasnach Ryngwladol.
- 45.** Bydd cysylltiadau rhynglywodraethol yn parhau i fod yn faes pwysig i graffu arno yn y Chweched Senedd.
- 46.** At hynny, bydd y math o berthynas a roddir i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â materion fel llywodraethu a datblygu'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad, a datblygu a negodi cytundebau rhyngwladol newydd, yn cael dylanwad uniongyrchol ar y trefniadau craffu y bydd angen i'r Chweched Senedd eu hystyried.

## 2.4. Cysylltiadau rhyngseneddol

- 47.** Mae Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi bod yn aelod o Bwyllgorau Ewropeaidd Fforwm y DU a'r Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit.
- 48.** Yn sail i'r fforymau hyn mae rhwydweithiau anffurfiol ar lefel swyddogion ar gyfer rhannu gwybodaeth a, lle bo hynny'n bosibl, cydgysylltu gwaith.
- 49.** Mae meithrin cysylltiadau â phwyllgorau yn neddfwrfeydd eraill y DU wedi ein helpu i ddod o hyd i feysydd o ddiben cyffredin a llwybrau newydd o ddylanwad posibl.
- 50.** Bydd ymgysylltiad parhaus a gwell â deddfwrfeydd eraill y DU ar lefel wleidyddol ac ar lefel swyddogion yn hanfodol os yw'r Chweched Senedd am graffu'n effeithiol ar y lluo o feysydd polisi sydd bellach yn croestorri â phenderfyniadau polisi sy'n digwydd yng nghanhedloedd eraill y DU.
- 51.** Yn ein cylch gwaith cyffredol, rydym yn gweld y potensial i ddatblygu cysylltiadau rhyngseneddol mewn perthynas â chraffu ar y Fframweithiau Cyffredin, marchnad fewnol y DU, cytundebau rhyngwladol gan gynnwys y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad, a chysylltiadau rhynglywodraethol yn fwy cyffredinol.
- 52.** Heb dynnu oddi wrth yr angen am atebolrwydd uniongyrchol pob gweinyddiaeth i'w deddfwrfa ei hun, mae dull gweithredu rhyngseneddol cydgysylltiedig yn cynnig o leiaf y gobaith o gael canlyniadau craffu achlysurol sy'n cynnig mwy na'u rhannau unigol.

## 2.5. Disodli cyllid yr UE

**53.** Wrth inni ddod â'r Bumed Senedd i ben, nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi'r union fodd y bydd cyllid yr UE yn cael ei ddisodli.

**54.** Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynigion adeiladol ar gyfer sut y gallai hyn gael ei reoli, ond nid yw'n ymddangos bod Llywodraeth y DU wedi mabwysiadu'r cynigion hyn.<sup>8</sup>

**55.** Mae Llywodraeth y DU wedi cymryd pwerau newydd i wario mewn meysydd polisi datganoledig, drwy Ddeddf Marchnad Fewnol y DU, ac wedi nodi y bydd yn rheoli cyllid rhanbarthol ar ôl Brexit drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

**56.** Mae hyn yn cael gwared ar y rôl yr oedd Llywodraeth Cymru yn arfer ei chyflawni ac yn ei rhoi yn nwylo Llywodraeth y DU. Drwy estyniad, mae'n cael gwared ar rôl graffu'r Senedd i raddau hefyd.

**57.** Nid yw cyfanswm gwerth unrhyw gyllid yn y dyfodol yn hysbys, sy'n gwneud cymharu â lefelau buddsoddiad yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd yn amhosibl.

**58.** Mae angen gwaith craffu parhaus ar y polisiau hyn a'u goblygiadau i Gymru wrth iddynt ddatblygu. Yn ogystal, bydd angen monitro'r effaith ar ddatganoli sy'n gysylltiedig ag ymyrraeth ariannol uniongyrchol gan Lywodraeth y DU mewn meysydd polisi datganoledig.

---

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru, *Buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit: papur polisi*, cyhoeddwyd gyntaf ym mis Rhagfyr 2017 a'i ddiweddarau ym mis Hydref 2020.

## 3. Llywodraeth Cymru a'r Senedd

### 3.1. Strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru

**59.** Yn ystod y Senedd sydd newydd basio, mae Llywodraeth bresennol Cymru wedi datblygu strategaeth ryngwladol, ac ystod o bolisiâu ategol. Rydym wedi craffu ar y gwaith o ddatblygu'r strategaeth a dechrau ei gweithredu.<sup>9</sup>

**60.** Bydd angen i'r Chweched Senedd ystyried sut mae gweithgareddau allanol Llywodraeth newydd Cymru yn cael eu harchwilio, gan gynnwys unrhyw strategaeth ryngwladol y mae'n ei mabwysiadu neu'n ei datblygu, a hynny er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn gwneud popeth yn ei gallu i hyrwyddo buddiannau Cymru yn effeithlon ac yn effeithiol yn y byd ehangach.

### 3.2. Y Senedd a gweithgaredd rhyngwladol

**61.** Rydym wedi ystyried perthynas y Senedd â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol ac wedi bod yn cymryd rhan mewn gwaith i gynnal cysylltiadau â'r UE drwy aelodaeth o Grŵp Cyswllt y DU Pwyllgor y Rhanbarthau ac yn ceisio cynrychiolaeth ar Gynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE.

**62.** Rydym yn croesawu cyswllt parhaus Comisiwn y Senedd drwy'r Grŵp Cyswllt.

**63.** Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi datblygu cysylltiadau â sefydliadau'r UE, llywodraethau a deddfwrfeydd cenedlaethol, llywodraethau a deddfwrfeydd rhanbarthol, dinasoedd, bwrdeistrefi a sefydliadau rhanddeiliaid rhyngwladol. Mae'r profiad hwn wedi ein harwain i'r casgliad bod y cysylltiadau hyn yn gweithio'n dda pan fydd cysylltiad clir a phwrpasol â busnes y Senedd drwy bwyllgor.

**64.** Mae bod yn sefydliad rhyngwladol uchel ei barch yn rhan bwysig o fod yn ddeddfwrfa genedlaethol, gan gyfrannu at gyfnewid gwybodaeth ac elwa o hyn, dod o hyd i gynghreiriaid a chynyddu'r dylanwad y gall y Senedd ei gael drwy waith craffu a chynrychiolaeth.

**65.** Mae bodolaeth pwyllgor materion allanol wedi bod yn locws naturiol ar gyfer peth o'r gweithgaredd hwn ac wedi golygu bod modd cysylltu gweithgaredd rhyngwladol â busnes y Senedd.

---

<sup>9</sup> Mae manylion am y gwaith hwn ar gael ar ein gwefan, gan gynnwys ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2019 ar strategaeth ryngwladol ddrafft (bryd hynny) Llywodraeth Cymru.

**66.** Credwn fod rhinwedd mewn ystyried sut y gall pwyllgorau'r Senedd barhau i gyfrannu at statws y Senedd yn y byd yn ystod y Chweched Senedd, a sut mae'r gweithgaredd hwn yn gwneud cyfraniad ystyrlon at fusnes y Senedd.